**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd Nos Fawrth 20fed o Fawrth 2018 yn Ysgol Gynradd cwm y Glo.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Hefin Jones (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Cemlyn Jones, Clifford Williams, Rhys Parry, Beca Brown, Haf Williams, Goronwy Hughes, Meirwen Lloyd, Alan Pritchard, Martin Jones.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Phil Roberts, Richard Robinson, Llywelyn Williams

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Cyngor Gwynedd)

**Clerc:** Meirion Jones

**136. Croeso gan y Cadeirydd**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod ac yn enwedig i Beca Brown a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf.

**137. Derbyn ymddiheuriadau.**

Rhain i'w derbyn fel y nodwyd uchod

**138. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol

**139. Cadarnhau cofnodion cyfarfod mis 20fed Chwefror 2018**

Cadarnhawyd cofnodion mis Chwefror yn gywir ac fe'i harwyddwyd gan y Cadeirydd

**140. Materion yn codi o'r cofnodion.**

**Eitem 119 – Mesurydd Cyflymder**

Nodwyd fod mesurydd cyflymder traffig i'w fod wedi ei osod ond hyd yma nid oedd wedi ei osod. Mae angen dilyn hyn i fyny a Chyngor Gwynedd.

**Eitem 126 – Uwch raddio llwybr Cwm y Glo i Llanrug**

Nodwyd fod y gwaith yma yn mynd ymlaen yn dda ond mynegwyd pryder am gyffordd i ystâd Dolafon. Mae perygl i geir pan yn tynnu allan o'r ystâd.

**141. I dderbyn adroddiad ar y sefyllfa ddiweddara parthed penderfyniad Cyngor Gwynedd i gau Clwb Ieuenctid Llanrug**

Nodwyd fod trafodaethau yn parhau gyda swyddogion y clybiau ieuenctid ac nad oedd yn briodol ar hyn o bryd gael diweddariad gan swyddogion lleol.

**Penderfynwyd:** Cysylltu â Chyngor Gwynedd a gofyn am bresenoldeb swyddog o lefel rheolaeth y Gwasanaeth Ieuenctid i gyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned

**142. I dderbyn sylwadau ar faterion y Fynwent.**

a) Adroddwyd fod y bedd oedd angen gwair arno yn parhau yn yr un cyflwr. Nodwyd mai'r penderfyniad oedd dal arni tan y Gwanwyn i sicrhau fod y gwair yn tyfu, cyn ei wneud.

b) Adroddodd y Cadeirydd ei fod wedi cyfarfod a defnyddiwr y tir mae'r Cyngor yn awyddus i'w ddefnyddio fel estyniad i'r fynwent a bod y deilydd y tir yn fodlon. Un peth mae yn ofyn ydi i'r Cyngor sicrhau bod ffens dda yn cael ei chodi er gwneud yn saff nad oedd anifeiliaid yn denig. Adroddodd y Cadeirydd y bydd yn cyfarfod eto gyda deilydd y tir maes o law.

c) Asesiadau Risg - Nodwyd am nifer o resymau nad oedd wedi bod yn bosib i Bwyllgor y Fynwent gyfarfod i drafod a chymharu asesiadau risg ar gyfer a mynwent a bod angen trefnu cyfarfod arall.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiadau a Phwyllgor y Fynwent i gyfarfod am 6:30 y.h. ar 28ain o Fawrth 2018 yn Y Sefydliad Coffa

**143. I dderbyn sylwadau ar faterion llwybrau cyhoeddus**

a) Adroddwyd fod y sefyllfa gyda llwybr Carreg Fran yn parhau ac er gwaethaf ymdrechion y Cyngor Cymuned i adrodd hyn wrth y Swyddog Llwybrau, nid oedd ymateb wedi dod.

b) Adroddwyd fod llwybr 80 sydd wedi rhestru ar fap llwybrau cyhoeddus a rhedeg o Blas Gwyn at yr Eglwys angen sylw ac nid yw yn bosib i gerddwyr ei ddefnyddio ar hyn o bryd oherwydd ei gyflwr.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu â'r Swyddog llwybrau i adrodd am ei gyflwr ac i atgoffa'r swyddog o lwybr Carreg Fran.

**144. I dderbyn sylwadau ar faterion meysydd chwarae**

Adroddodd y Cynghorydd Cemlyn Jones, fod aelodau Cwm y Glo wedi cyfarfod i drafod yr ymatebion i'r holiaduron a ddosbarthwyd yn ddiweddar i drigolion Cwm y Glo. Bydd aelodau yn cofio mai pwrpas yr holiadur oedd y ddarganfod beth oedd dymuniadau preswylwyr Cwm y Glo i'r cae chwarae ar ôl iddo ddod oddi tan reolaeth Cyngor Cymuned Llanrug. Yn ôl yr ymateb, roedd yr ymatebion yn cyfeirio yn bennaf tuag at fwy o le parcio gydag offer chwarae i blant.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**145. I dderbyn adroddiad gan gynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug**

Nodwyd nad oedd cyfarfod wedi ei gynnal.

**146. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd**

Adroddodd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones fel a ganlyn

**Trethy Cyngor 2018 – 2019**

Y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar Mawrth 8fed wedi cymeradwyo codiad o 4.8% yn y trethi i'r flwyddyn nesaf, sydd yn dod a £3.2miliwn ychwanegol i mewn.
Er y codiad, oherwydd y diffyg yn y grant gan Llywodraeth Cymru, fydd hyn yn golygu bydd rhaid i'r cyngor dal wneud arbediad o £2.75miliwn. Roedd yr arbediad yma wedi ei gynllunio yn barod.

Dydi'r rhagolygon ddim yn dda i'r dyfodol, mae'r swyddogion yn parhau efo'r strategaeth arbedion. Maent yn rhagweld fydd angen arbedion rhwng £8.4m a £13.8m erbyn 2019-20 (swm tebygol yn £12m), ac wedyn rhwng £2.7m £6.4m pellach erbyn 2020-21. (cyfanswm tebygol dros y ddwy flynedd o £15.9m.
I ymateb i hyn bydd angen bod yn hyblyg a cynllunio hyd at £20m o arbedion dros y dair blynedd 2018-19 hyd 2020-21.

**Cynllunio**
Cais Cynllunio Plas Tirion wedi ei gymeradwyo ar 26ain o Chwefror.

**Bysiau**

Mae na ddiweddariad i'r amserlenni, mae'r Clerc wedi eu rhannu hefo chi. O be dwi'n ddeall fydd posibilrwydd o newid ychydig arnynt eto yn y dyfodol, ond ddim arian i wneud unrhyw newidiadau mawr.

**Gwasanaeth Ieuenctid**

Y cabinet wedi penderfynu ar Opsiwn 4, sef cau y 39 clwb sydd yn rhedeg ar y funud, ac cynnig gweithgareddau mewn gwahanol ardaloedd am gyfnod byr dros y flwyddyn. Hefyd bydd un swyddog Ieuenctid wedi ei leoli yn bob un o'r 14 Ysgolion Uwchradd.

**Gwasanaeth Hamdden**

Fel rhan o'r arbedion, mae'r Cyngor wedi creu cwmni newydd i redeg y Canolfannau Hamdden, fydd y cwmni yn cael ei reoli yn gyfan gwbwl gan y cyngor. Mi fydd 7 cynghorwyr, yn cynnwys fi, yn gyfarwyddwyr ar y cwmni newydd. Y prif reswm am sefydlu y cwmni ydi fod TAW, yn cael ei drin yn wahanol, ac fydd yn golygu arbediad oddeutu hanner miliwn y flwyddyn.

**Credyd Cynhwysol**

Sef un budd-dal yn lle tri neu bedwar fel mae hi rŵan. I fod yn haws i bobol ddelio hefo, ac yn fwy hyblyg pan mae pobol yn symud i mewn ac allan o waith.

Ar y funud oddeutu 750 yn treialu fo yng Ngwynedd, bydd yn dod i mewn dros gyfnod, ddim pawb ar unwaith yn cychwyn yn yr Haf. (Bellach wedi newid i fis Rhagfyr a dim ond i geisiadau newydd ar hyn o bryd).

Mi fydd yn effeithio oddeutu 5% o deuluoedd yn ward Cwm y Glo.
Dros y sir fydd:-
53% o deuluoedd yn mynd i fod yn waeth allan o £38 punt yr wythnos
23% o deuluoedd yn mynd i fod yn well allan o £21 punt yr wythnos
23% dim newid
Bydd rhaid gwneud y cais "on-line" – dim dewis. Y cyngor yn trio targedu teuluoedd sydd ddim o bosib yn gyfforddus hefo cyfrifiaduron i sicrhau eu bod yn cael y gefnogaeth fydd ei angen i wneud y cais.

**Yn lleol**

Y gwaith ar uwchraddio y llwybr troed rhwng Cwm y Glo a Llanrug wedi cychwyn ers 19 Chwefror. I fod i gymryd 6 wythnos, dwi'n tybio bydd o ychydig yn hirach oherwydd y tywydd.

Mae tipio slei bach dal yn broblem, dwi wedi cael mwy na un galwad am pethau yn cael ei gadael ar lôn gefn heibio Tyddyn Rhyddid. Soffa wedi ei gadael yna rhyw noson yn diweddar. Eto os oes gan unrhyw un unrhyw

wybodaeth am pwy sy'n gwneud os fasech chi yn gadael i mi neu yr awdurdod wybod.

Llifogydd Dol Afon. Wedi cael cyfarfodydd hefo CCG a'r Cyngor i symud y mater yn ei flaen. Rwyf wedi cael cadarnhad fod y Cyngor a Cartrefi Cymunedol Gwynedd wedi dod i ddealltwriaeth fel bod y Cyngor yn rhoi cais grant i mewn i Llywodraeth Cymru ac fydd CCG yn rhoi "match funding". Grant yn mynd i mewn rŵan, a gobeithio cael ateb yn mis Mai.

Llifogydd tŷ nol i Stryd y Llyn, ar brif ffordd trwy'r pentref, Cwm y Glo. Dwi wedi cael cyfarfodydd hefo swyddogion y cyngor ac oherwydd fod dwr wedi mynd i mewn i dai byddant yn creu adroddiad i weld y ffordd orau o ddatrys y broblem.

Llifogydd ffordd heibio Pant Afon

Eto wedi cyfarfod a swyddogion ac maent wedi cytuno i roi peipen i mewn i gael y dwr i redeg yn ôl i'r ffos gerllaw.

**Penderfynwyd:**

a) Diolch i'r Cynghorydd Berwyn Parry Jones am yr adroddiad;
b) Derbyn yr adroddiad

**147. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones ar weithgareddau dros y mis yng Nghyngor Gwynedd (gwêl isod)**

1. Y peth nesaf sylweddol fydd yn digwydd yn Llanrug yw ail wynebu rhannau o Ffordd yr Orsaf ym mis Mehefin (dyna yw'r gobaith).

2. Parthed y llifogydd diweddar, mae perchennog y tir dros ffordd i'r hen Hafod Garage wedi derbyn 'Planning Contravention Notice' am ddympio pridd a rwbel ar y tir heb ganiatâd cynllunio. Os na fydd y perchennog yn ymateb oddi fewn 21 diwrnod (23 Chwefror), mi fydd y cyngor yn cymryd cyngor cyfreithiol cyn bwrw ymlaen gydag achos gorfodaeth, gan bod angen sicrhau bod unrhyw rybudd gorfodaeth yn cael ei gyflwyno yn gywir.

3. Dwi'n siŵr fydd aelodau o'r cyngor cymuned efo diddordeb yn yr amserlenni newydd ar gyfer 82/83 (Caernarfon - Deiniolen a Dinorwig) a 88 (Caernarfon -Llanberis). Mae'r amserlenni newydd yn dod i rym 8 Ebrill.

**Penderfynwyd:**

a) Diolch i'r Cynghorydd Charles Jones am yr adroddiad;
b) Derbyn yr adroddiad

**148. I dderbyn diweddariad ar y sefyllfa drosglwyddo cae Chwarae Cwm y Glo a Dolafon i Gyngor Cymuned Llanrug oddi wrth Gyngor Gwynedd.**

Adroddwyd gan y Clerc ei fod wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd i gael diweddariad ar y trosglwyddiad a bod ymateb wedi ei dderbyn yn cadarnhau fod y mater yn nwylo Adran Gyfreithiol Cyngor Gwynedd.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad

**149. I ystyried ac i roi sylwadau am yr amserlenni bws newydd sydd yn dod i rym 8fed o Ebrill 2018 (copïau eisoes wedi eu dosbarthu i aelodau).**

Nodwyd o'r amserlenni bws newydd, nad oedd yn bosib teithio o Llanberis i Gaernarfon fel eich bod yn gallu bod yn y gwaith yng Nghaernarfon erbyn 9:00 y.b.

**Penderfynwyd:** Y Clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd a chwmni bysiau Arriva o hyn.

**150. Adroddiad ar y trefniant ar gyfer ail lenwi biniau halen a bod angen ystyried y drefn ar gyfer gaeaf 2018 / 2019.**

Adroddwyd gan y Clerc am y drefn o lenwi biniau halen ar gyfer gaeaf 2018 / 2019. Roedd yn ofynnol i bob cais am lenwi bin halen gael ei dderbyn gan y Clerc ac yna'r Clerc i anfon e-bost at Gyngor Gwynedd i ofyn iddynt fynd i lenwi'r bin halen. Yn anffodus, unwaith roedd y cais wedi mynd i Gyngor Gwynedd, nid oedd cydnabyddiaeth o'r e-bost yn cael ei anfon, nac chwaith unrhyw gadarnhad o'r dyddiad pa bryd fyddai'r bin yn cael ei lenwi. Roedd

hyn yn ei gwneud yn anodd iawn i allu darparu gwybodaeth i breswylwyr pa bryd fyddai yn cael ei lenwi. I'r preswylydd roedd hyn yn rhwystredig oherwydd yn eu meddwl nhw, y Cyngor Cymuned oedd yn llenwi'r bin. Yn ogystal, a'r biniau halen presennol, mae angen edrych ar eu lleoliadau ac ystyried ydynt yn y llefydd sydd fwyaf addas ac a oes ystyried rhoi rhai ychwanegol mewn mannau eraill. Ar gyfer y gaeaf nesaf, bydd angen ystyried y drefn bresennol ac edrych fewn i'r posibilrwydd / oblygiadau o'r Cyngor Cymuned gymryd rheolaeth lwyr o'r broses.

**Penderfynwyd:** Derbyn yr adroddiad, ac i'r aelodau ystyried lleoliadau'r biniau halen presennol ynghyd a chymryd golwg ar eu cyflwr.

**151. Lleoliadau biniau halen - angen ystyried os ydi'r rhai presennol yn ddigonol ac yn y lleoliadau cywir ac os oes angen mwy.**

Gwêl eitem 150

**152. Taliadau i Gynghorwyr Cyngor Cymuned a Thref (Adroddiad eisoes wedi ei gylchredeg i aelodau) ac mae angen penderfynu pa bryd y telir yr arian ar gyfer aelodau.**

Adroddwyd ei fod yn fandadol yn ystod 2018 / 2019 i dalu ffi o £150 y flwyddyn i bob aelod. Mae angen i'r Cyngor benderfynu pa bryd y telir y swm yma ac i ystyried os ydi'r Cyngor am dalu ffi ychwanegol o hyd at £500 i aelod sydd â chyfrifoldebau ychwanegol (uchafswm o 5).
**Penderfynwyd:**

a) Er osgoi talu arian ar ddechrau neu ar ganol y flwyddyn ariannol, a chreu problemau petai'r aelod yn gadael y Cyngor, yna i dalu'r ffi o £150 ym mis Mawrth 2019.

b) Gohirio penderfyniad am y ffi ychwanegol hyd nes bydd ystyriaeth fanwl wedi rhoi i swydd yr aelod perthnasol ynghyd a pa bydd y pwyllgor Cyllid wedi ystyried yr oblygiadau.

**153. I ystyried y ceisiadau ariannol gan y mudiadau canlynol**

**Fe ddatganwyd diddordeb yn y mater 153 (a)**

- Y Clerc fel Trysorydd Llewod Llanrug a Rheolwr tîm d14.
- Y Cynghorydd Rhys Parry, fel dyfarnwr pêl-droed a fydd o bryd i'w gilydd yn cael ei dalu gan Llewod Llanrug pan yn dyfarnu gemau cartref Llewod Llanrug d14.

**a) Llewod Llanrug**
**b) Ambiwlans Awyr Cymru**
**c) Theatr Bara Caws**

Penderfynwyd: I dalu'r grantiau fel a ganlyn

Llewod Llanrug - £700
Ambiwlans Awyr Cymru - £100
Theatr Bara Caws - £100

**154. Ceisiadau Cynllunio - rhain i'w trafod mewn cyfarfod arbennig i'w gynnal Nos Yfory am 7:00 yn Sefydliad Coffa, Llanrug.**

Dim ceisiadau Cynllunio - rhain i'w ystyried mewn cyfarfod arbennig yw gynnal Nos Fercher 21 o Fawrth 2018 yn y Sefydliad Coffa.

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: